# Am Gymru

Medi 2010

## Hwb i addysg plant yng Nghaerffili

Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf yng Nghaerffili yw'r gyntaf yng Nghymru i gymryd rhan mewn rhaglen ryngwladol sydd â'r nod o helpu plant ifanc a theuluoedd i elwa mwy o'u haddysg. Mae Achub y Plant wedi cynnal cynllun peilot o fenter Teuluoedd ac Ysgolion Ynghyd (FAST) yn yr ysgol. Mae'r cynllun, ar gyfer teuluoedd a'u plant tair i bump oed, yn eu hybu nhw i gyflawni tasgau bob dydd gyda'i gilydd fel rhannu pryd teuluol, chwarae gemau

a threulio amser un wrth un gyda'i gilydd. Yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp, mae teuluoedd hefyd wedi'u cyflwyno i famau a thadau eraill yn eu cymunedau. Ym mis Gorffennaf cynhaliwyd seremoni raddio i'r 17 teulu a fu'n cymryd rhan, er mwyn nodi diwedd y cyfnod hyfforddiant o wyth wythnos, ond bydd y grŵp yn parhau i gyfarfod dros y ddwy flynedd nesaf, gyda chefnogaeth Achub y Plant.

Meddai'r Prifathro Mr Jonathan Lloyd: "Rydym yn credu bod perthynas gref rhwng yr ysgol a'r teulu yn hynod bwysig. Mae FAST wedi'n galluogi ni i gryfhau ein hymrwymiad i'r plant a'r teuluoedd yn ein cymuned."

Cafodd gwaith FAST yng Nghaerffili ei gyllido'n rhannol gan rodd hael oddi wrth Gronfa Arglwydd Faer Caerffili, trwy law Cangen Caerffili o Achub y Plant.

**Am ragor o wybodaeth am ein rhaglen FAST cysylltwch â:**
**m.chapple@savethechildren.org.uk**

## Corddi'r dyfroedd dros achos da

Cynhaliwyd digwyddiad llwyddiannus dros ben, 'Paddle for Life', ar draeth Newton, Porthcawl, ar 21 Awst, gan godi dros £5,000. Roedd yn ddiwrnod llawn hwyl i'r teulu cyfan yn cynnwys ras rafft noddedig, syrffio, caiacio a gemau ar y traeth, gan godi arian a gwneud gwahaniaeth i fywydau plant yma yng Nghymru ac ar draws y byd. Syniad Lee Garbett, sy'n rhedeg Quest Adventures ym Mhorthcawl, oedd 'Paddle for Life', ac mae'n gobeithio y bydd yn datblygu yn ddigwyddiad blynyddol.

Mae Quest Adventures eisoes wedi casglu miloedd ar gyfer yr elusen drwy wahanol ddigwyddiadau codi arian. Mae Lee Garbett hefyd wedi ymweld â rhaglen Achub y Plant yn Ne Affrica er mwyn gweld drosto'i hun sut mae arian a godir yma yng Nghymru yn mynd yn bell wrth helpu plant bregus.

"Roedd ymweld â'r ysgolion a'r clinigau a gweld y gwaith anhygoel y mae Achub y Plant yn ei wneud allan yna yn brofiad rhyfeddol. Dyma hanfod codi arian a gwelais drosof fi fy hun sut gall ein harian ni wneud gwahaniaeth i fywydau'r plant a'r cymunedau hyn."

Am ragor o wybodaeth am godi arian cysylltwch â: j.evans@savethechildren.org.uk

Achub y Plant
Save the Children

## Hedfan barcud dros hawliau plant yn yr Eisteddfod

Bu stondin Achub y Plant yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mlaenau Gwent yn boblogaidd dros ben gyda nifer fawr o blant a'u teuluoedd yn dod i greu barcutiaid i ddangos eu cefnogaeth i'n hymgyrch POB UN. Dyma'n hymgyrch fyd-eang fwyaf erioed, gyda'r bwriad o rwystro dros naw miliwn o blant o dan bump oed rhag marw bob blwyddyn o afiechydon sy'n hawdd eu trin, fel dolur rhydd a niwmonia. Yna ar Awst 5ed buom hedfan y barcutiaid yn dorfol ar draeth ffug Cyngor Blaenau Gwent ar faes yr Eisteddfod.

Mae gennym rôl allweddol wrth sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc hawliau, waeth ble maen nhw'n byw. Mae'r rhain yn cynnwys mynediad i wasanaethau fel dŵr glân, bwyd, addysg ac iechyd, amddiffyniad rhag trais ac esgeulustra, a rhag cael eu cam-drin neu'u hecsploetio, a'r hawl i gael llais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Mae plant sy'n byw yng Nghymru yn brin o'u hawliau hefyd. Mae bron i un o bob tri o blant Cymru yn byw mewn tlodi, sy'n golygu bod eu teuluoedd yn wynebu dewisiadau anodd rhwng bwyta a gwresogi'r cartref.

Meddai Andrew Chalinder, Pennaeth Achub y Plant yng Nghymru, "Yr haf hwn, rydym yn annog miloedd o blant a'u teuluoedd i hedfan barcud i gefnogi ein hymgyrch POB UN mewn gwyliau ar draws Prydain. Bu'r stondin fel ffair drwy'r wythnos gyda phlant yn creu eu barcutiaid ac yn ysgrifennu negeseuon ynddyn nhw ar gyfer yr ymgyrch."

cefnogwraig ifanc gyda'i barcud

Er mwyn cefnogi ein hymgyrch edrychwch ar:i.savethechildren.org.uk

## Llyfryn newydd yn hysbysu Sipsiwn a Theithwyr ifanc o'u hawliau

Mae Achub y Plant wedi cynhyrchu llyfryn newydd i helpu Sipsiwn a Theithwyr ifanc i ddeall eu hawliau. Cafodd y llyfryn, sydd wedi'i anelu at rai rhwng 11 a 18 oed, ei gynhyrchu ar y cyd â Sipsiwn a Theithwyr ifanc, ac mae'n cynnig gwybodaeth ar yr hawliau sydd ganddyn nhw ym myd addysg, yr help sydd ar gael os ydyn nhw'n cael eu bwlio yn yr ysgol, eu hawliau ynglŷn â'r parch dyledus gan eraill i'w cartrefi, eu bywyd teuluol a'u diwylliant, a'u hawliau o ran yr heddlu a gofal iechyd.

Meddai Sam, sy'n 13: "Nid yw'r rhan fwyaf o Sipsiwn yn gwybod beth yw eu hawliau a gall y llyfryn hwn ddweud wrthym ni beth allwn ni ei wneud a beth allwn ni ei gael. Dysgom ni lawer a chael hwyl wrth ei gynllunio, a helpu dewis y lliwiau ar gyfer y faner ar y clawr." Mae'r llyfryn yn rhan o brosiect 'Teithio 'Mlaen' Achub y Plant yng Nghymru a ariannir gan elusen Plant Mewn Angen y BBC a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â j.davies@savethechildren.org.uk**

## Ailgylchu a Chynilo

Mae Merched y Wawr wedi enwebu Achub y Plant fel eu helusen apêl ar gyfer y flwyddyn 2010 - 2011. Bydd aelodau Merched y Wawr yn casglu hen ffonau symudol a chetris inc gwag, a fydd wedyn yn cael eu hailgylchu er mwyn codi arian ar gyfer Achub y Plant – arian fydd yn achub bywydau. Os hoffech chi gefnogi'r apêl a rhoi hen ffôn symudol neu getris inc, cysylltwch â phrif swyddfa Merched y Wawr, 01970 611661

## Uwchgynhadledd Tlodi Cymru

Mae'n anghredadwy ac yn annerbyniol bod miloedd o blant yn byw mewn tlodi o hyd yng Nghymru yn 2010. Mae Achub y Plant yn gweithio gyda thri grŵp o 'Lysgenhadon Ifanc', rhwng 8 a 17 oed, er mwyn cynllunio, trefnu a chynnal eu Huwchgynhadledd Tlodi Cymru eu hunain yn Stadiwm y Ddinas, Caerdydd, ar ddydd Gwener Tachwedd 12fed, rhwng 2-5pm.
Yn yr Uwchgynhadledd, bydd y Llysgenhadon Ifanc yn:

- Cyflwyno barn plant a phobl ifanc am dlodi yng Nghymru, a'u negeseuon allweddol yn ei gylch.
- Arddangos enghreifftiau o'u gwaith eu hunain wrth 'ysbrydoli newid' a'u hatebion lleol nhw i dlodi plant.
- Dangos sut y buon nhw'n chwarae rhan wrth gynllunio a chyflawni Strategaeth Tlodi Plant lleol.
- Ymgyrchu dros ddileu tlodi plant ac yn galw am yr hyn sydd angen ei newid, yn eu barn nhw, o ran polisi ac arfer yng Nghymru a'r DU.

**Am ragor o wybodaeth am yr uwchgynhadledd, cysylltwch â**
walespovertysummit@savethechildren.org.uk

## Hedfan y Nod Barcud

Cafodd Nod Barcud cyntaf erioed Cymru ym maes Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc ei lansio mewn digwyddiad arbennig yng Nghanolfan Cefn Lea yn y Drenewydd, Powys ym mis Mai. Cynhaliodd yr Uned Cyfranogi, sydd wedi'i leoli gydag Achub y Plant yng Nghymru, ddigwyddiad un diwrnod er mwyn codi ymwybyddiaeth o gyfranogiad plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau ar yr holl faterion sy'n effeithio ar eu bywydau nhw.

Meddai Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog dros Blant: "Mewn Cymru fodern mae'n bwysig bod pobl yn gwrando ar lais plant a phobl ifanc. Mae'r Nod Barcud cenedlaethol newydd yn cynnig ffordd wych i blant a phobl ifanc chwarae rhan, gan gyfranogi yn y penderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar eu bywydau." Cafodd y digwyddiad ei gyllido gan Gronfa 'Creu Cysylltiadau' Llywodraeth Cynulliad Cymru a chynllun 'Cyrraedd y Nod' Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â
r.horder@savethechildren.org.uk

Hydref 2 -10 eleni yw wythnos ein syniad codi arian newydd – cael eich noddi am bob cam a gymerwch chi. Mae plant ar draws y byd yn gorfod cerdded am filltiroedd i gael bwyd, dŵr neu loches. Ym Mhrydain a thramor, mae angen i blant gymryd camau geirwon bob diwrnod er mwyn goroesi. Mae eich help chi yn hanfodol iddyn nhw. Mae Cymryd Cam yn ffordd wych o gadw'n heini a chodi arian ar gyfer achos teilwng.

cerdded i'r gwaith (ac adref eto), cyfrif eich camau yn y gampfa, dawnsio, cerdded neu loncian yn eich awr ginio, cyfrif camau eich plentyn, rhedeg o amgylch eich cae chwarae lleol, hercian, sgipio, ei droi'n achlysur cymdeithasol gyda'ch ffrindiau

Unwaith i chi gofrestru a derbyn eich camfesurydd gallwch lawrlwytho ffurflen nawdd a chanllaw yn egluro sut mae dechrau arni. **Am ragor o wybodaeth ac i gofrestru edrychwch ar:**
http://www.savethechildren.org.uk/en/take-a-step.htm

## Seren Aur yng Nghinio Menywod Llanilltud Fawr

Daeth y feicwraig arobryn Nicole Cooke i siarad yng nghinio merched Cangen Llanilltud Fawr yn y Duke of Wellington, Y Bontfaen ar 28 Mehefin 2010 – a chafodd pob tocyn ei werthu. Cafwyd gwledd wrth i Nicole rannu straeon am gystadlu yng Ngemau Olympaidd Beijing 2008 a'i phrofiadau yn cystadlu ar y brig. Meddai Cadeirydd Cangen Llanilltud Fawr, Julie Lloyd, "Cafodd pawb ddiwrnod bendigedig ac roedd hi'n wefr i gael cwmni Nicole a chael rhannu ei phrofiadau Olympaidd."

Nicole Cook gyda changen Llanilltud

## Cynhadledd genedlaethol cyntaf Cymru ar Dlodi Plant

Cafodd Cynhadledd Genedlaethol ar Dlodi Plant – y gyntaf o'i math yng Nghymru – ei chynnal yn Stadiwm Pêl-droed Dinas Caerdydd ar ddydd Iau Mai 27ain. Roedd y gynhadledd yn gyfle i drafod y ffordd orau o weithredu er mwyn lleihau tlodi plant yng Nghymru. Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru, oedd yn cadeirio'r trafodaethau ac ymhlith y siaradwyr allweddol roedd y Dirprwy Weinidog dros Blant, Huw Lewis. Cafodd cyfnod newydd y cynllun arloesol Datrys Tlodi Plant ei lansio yn y gynhadledd gyda sylw arbennig ar gyrraedd ystod fwy eang o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys iechyd ac addysg. Mae'r prosiect wedi'i ddatblygu gan Achub y Plant yng Nghymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru. Y bwriad yw helpu awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill i weithredu er mwyn ymladd tlodi plant yn eu cymunedau nhw.
childpovertysolutions.org.uk

## Colorfoto yn codi arian dros Achub y Plant am yr ail flwyddyn yn olynol

Mae'r cwmni o Gaerdydd, Colorfoto, sy'n arbenigo ar ffotograffiaeth ar gyfer ysgolion a digwyddiadau, wedi codi'r swm anhygoel o £1363 ar gyfer Achub y Plant. Cafodd Achub y Plant ei enwebu fel elusen y flwyddyn am yr ail flwyddyn yn olynol gan y cwmni, a aeth ati i godi arian drwy gynnal partïon yn dangos gemau rygbi'r Chwe Gwlad. Meddai Swyddog Codi Arian Achub y Plant, Jess Evans, "Rydym yn ddiolchgar dros ben i staff a chwsmeriaid Colorfoto am eu haelioni a'u cefnogaeth."Os oes diddordeb gan eich cwmni chi mewn cefnogi Achub y Plant yna cysylltwch â j.evans@savethechildren.org.uk

## Ymgyrch Cyfle Teg yn yr Ysgol

Mae yna fwlch o hyd rhwng cyrhaeddiad plant tlawd a phlant cyfoethog yn y dosbarth yng Nghymru, er gwaetha'r ymrwymiad gwleidyddol parhaus i'w gau. Mae yna gysylltiad rhwng lefelau o amddifadedd yn y cartref a chyrhaeddiad academaidd plentyn yn y dosbarth, gyda'r rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim lawer yn llai tebygol o gyrraedd pum gradd A*- C na'u cyfoedion cyfoethocach.

Fel rhan o'r ymgyrch 'Cyfle Teg', mae Achub y Plant yng Nghymru am weld:

- Sicrhau bod strategaethau tlodi plant cenedlaethol ac awdurdodau lleol yn cynnwys targedau ac adnoddau i wella cyfleoedd addysgol a phrofiadau dysgu'r plant tlotaf.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru yn targedu cyllid ychwanegol ar gyfer y disgyblion tlotaf yng Nghymru.
- Buddsoddi mewn gweithgareddau i blant a rhaglenni magu plant, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Meddai Andrew Chalinder, Pennaeth Achub y Plant yng Nghymru, " Mae tlodi yn achosi niwed difrifol i obeithion llawer o blant. Nid yw'n deg bod llawer yn gwneud yn waeth, na bod ganddyn nhw lai o hyder yn eu gallu eu hunain i gyflawni eu breuddwydion."

TAKE ACTION →

www.savethechildren.org.uk/betterodds

## Cwmni mwyaf Clyfar Caerdydd

Cwmni Cyfraith Deuluol Wendy Hopkins enillodd deitl cwmni mwyaf clyfar Caerdydd mewn noson gwis arbennig a drefnwyd gan grŵp codi arian Pobl Ifanc Proffesiynol Caerdydd yn Stadiwm Swalec ar Fehefin 30ain. Cafodd y digwyddiad ei noddi gan Greenfield Media ac arweinydd y noson oedd Chris Moore o Real Radio. Cododd y digwyddiad dros £750.

greenfield